

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Mawrth 29ain 2023
TEITL	Dynodiad Awyr Dywyll
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau a cheisio cefnogaeth
AWDUR	Swyddog Prosiect AHNE
ARGYMHELLIAD	Cefnogi y bwriad i weithio tuag at gais statws Awyr Dywyll i ardal Pen draw Llŷn

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Ers peth amser mae'r Uned AHNE wedi bod yn gweithio tuag at geisio am statws Awyr Dywyll Rhyngwladol ar gyfer ardal AHNE Llŷn. Mae'r mater wedi ei drafod yn y Cydbwyllgor ond hyd yma does dim perderfyniad wedi ei wneud.
- 1.2 Sylweddolir fod ardal yr AHNE i gyd yn eithaf mawr ac mae gwahaniaethau o fewn yr ardal. Mae casglu data am yr holl ardal yn gryn sialens.
- 1.3 Yn hytrach na cheisio dynodi yr holl AHNE fel ardal o Awyr Dywyll Rhyngwladol mae'r Uned AHNE yn awr yn ystyried canolbwyntio ar ardal benodol ar drwyn y Penrhyn.

2.0 NODDFA AWYR DYWYLL ENLLI

- 2.1 Cafodd Ynys Enlli ei ddynodi'n Noddfa Awyr Dywyll ar y 23ain o Chwefror 2023. Enlli yw'r safle cyntaf yn Ewrop i dderbyn yr ardystiad yma, diolch i lygredd golau isel yr ynys.
- 2.2 Dyma oedd gan cyfarwyddwr gweithredol y Sefydliad Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) i'w ddweud "Mae Cymru'n prysur ddod yn un o'r cenhedloedd mwyaf blaenllaw o ran amddiffyn awyr dywyll fel adnodd gwerthfawr sydd o fudd i bobl a bywyd gwyllt."
- 2.3 Cafodd y newyddion fod Ynys Enlli wedi ei ddynodi'n Noddfa Awyr Dywyll ei ddalledu ar hyd y wlad, gan godi ymwybyddiaeth am Enlli a Llŷn. Gall y dynodiad yma fod o fudd i'r sector twristiaeth ar adegau distaw o'r flwyddyn. Mae Parc Cendlaethol Eryri eisioes yn gweld y byddion o gael ei ddynodi yn Warchodfa Awyr Dywyll.

3.0 CAIS AM STATWS AWYR DYWYLL I RAN O AHNE LLŷN

- 3.1 Y Sefydliad Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) sydd wedi sefydlu y cysyniad o ardaloedd Awyr Dywyll ac yn rheoli y broses ddynodi. Mae gwahanol fathau o ddynodiadau yn bosibl – yn cynnwys statws Noddfa, Cymuned, Parc a Gwarchodfa. Mae staff yr Uned wedi cael cyfarfod ar lein gyda staff yr IDA ac maent yn gefnogol iawn i'r bwriad o wneud cais am statws Awyr Dywyll ar gyfer yr ardal hon.

- 3.2 Mae trafodaeth wedi bod yn y Cydbwyllgor am y posibilrwydd o gefnogi cais am staws awyr dywyll ar salw achlysur. Bryd hynny roedd rhai pryderon am effaith posibl y dynodiad.
- 3.3 Yn sicr mae ardal yr AHNE yn ei gyfanrwydd yn eithaf eang ac mae cryn amrywiaeth o ran tywyllwch nos ayb. Hefyd mae monitro yr awyll dywyll ar draws yr holl ardal yn gryn sialens.
- 3.4 Oherwydd hynny, a'r ffaith fod Ynys Enlli bellach wedi derbyn statws Noddfa Awyr Dywyll mae'r Uned AHNE, mewn cydweithrediad gyda Prosiect NOS, yn ystyried ceisio am statws Awyr Dywyll i'r ardal ar drwyn y Penrhyn – ardal Cymuned Pen draw Llŷn. Dyma hefyd yw un o'r ardaloedd tywyllaf yn yr AHNE.
- 3.5 Fel rhan o'r broses ymgeisio am y Statws Awyr Dywyll bydd angen paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a chreu rhaglen o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth.

6.0 ARGYMHELLIAD

- 6.1 Cefnogi bwriad yr Uned AHNE i weithio tuag at wneud cais am ddynodiad Awyr Dywyll i ardal Pen draw Llŷn.